


ECAD6006C

Darlith 3 Jeni Price

Hydref 24 2019

Gweithgareddau Tanio ...

Chwaraewch y gêm drac gyda phartner …




Gêm Drac

Chwaraewch y gêm drac, yna gwnewch frawddegau sy'n cynnwys y gorchmynion yn y grid.

Tala	**Darllena**	**Edrychwch**	**Rho**	**Gwisgwch**

Ymarferwch y sgwrs gyda phartner …



Sgwrs: Yn yr ysgol – dydd Llun arferol!

Athro:	Dewch i mewn, blant – yn dawel os gwelwch yn dda. Yoko, caea'r drws os gweli di'n dda ... Dyna ni ... Tynnwch eich cotiau ac eisteddwch yn dawel.
Imran:	Syr, ga i fynd i'r toiled os gwelwch yn dda?

Pwy sy'n cofio…?

No running.

Have you finished John?

Are you ready children?

Where is your homework?

Don't talk in class (pl).

How many pencils are there?

Pwy sy'n cofio…?

Wear your coat Anna.

Can I see your work Jess?

You must listen to me Harry.

Look at the whiteboard (pl)

Will you put the book on the desk?

Tidy your books children.

Treiglo gyda gorchmynion …

Treiglad meddal ar ôl gorchymyn
Mae'r gair sy'n dod ar ôl gorchymyn yn **treiglo'n feddal**.

e.e. Yfa **dd**ŵr.	Yfwch **dd**ŵr.
Bwyta **l**ysiau bob dydd.	Bwytwch **l**ysiau bob dydd.
Darllena **l**yfr.	Darllenwch **l**yfr.
Gwisga **g**ot.	Gwisgwch **g**ot.

Ond os oes y / yr / 'r ar ôl gorchymyn, dim ond enwau benywaidd unigol sy'n treiglo.

e.e. Yfa'r dŵr. Yfwch y dŵr.
(Mae'r gair 'dŵr' yn wrywaidd, felly does dim treiglad.)


Bwyta'r llysiau. Bwytwch y llysiau.
(Mae'r gair 'llysiau' yn lluosog, felly does dim treiglad.)

Gwisga'r **g**ot. Gwisgwch y **g**ot.
(Mae'r gair 'cot' yn fenywaidd, felly mae treiglad meddal.)

Gweithgareddau …

Ymarferwch y sgwrs ‘Yn yr ysgol – prynhawn aur’ gyda phartner …





Gwnewch yr ymarferion ‘Llenwi bylchau’ a ‘Treiglo neu beidio’ …

Ysgrifennwch bum rheol i'ch dosbarth chi.

Berfau: Yr Amherffaith

Cadarnhaol	Cwestiwn	Negyddol
Roeddwn i	Oeddwn i?	Doeddwn i ddim
Roeddet ti	Oeddet ti ?	Doeddet ti ddim
Roedd e	Oedd e?	Doedd e ddim
Roedd hi	Oedd hi?	Doedd hi ddim
Roedden ni	Oedden ni?	Doedden ni ddim
Roeddech chi	Oeddech chi?	Doeddech chi ddim
Roedden nhw	Oedden nhw?	Doedden nhw ddim

Amser Sgwrsio ...



Oeddet ti'n .....

Nac oeddwn, doeddwn i ddim yn ..... achos ....

Oeddwn, roeddwn i'n ..... achos ....

Trafodwch gyda phartner …

Trafodwch gyda'ch partner

1. Ble roeddech chi'n byw pan roeddech chi'n fach?
2. Sut roeddech chi'n teithio i'r ysgol?
3. Beth roeddech chi'n wneud ar y penwythnos?
4. Ble roeddech chi'n chwarae?
5. Beth doeddech chi ddim yn hoffi?
6. Beth oedd yn codi ofn arnoch chi?

Tasg Darllen…

Pan roeddwn i'n blentyn yn Llanon, Ceredigion roedden ni'n mynd i hela Calennig ar fore dydd Calan, ond roedd rhaid i ni orffen am hanner dydd, felly roedd rhaid i ni godi'n fore i fynd yn gyflym o dŷ i dŷ. Roedd rhaid croesi'r caeau a thrïo cyrraedd y ffermydd hefyd oherwydd roedden nhw'n fwy hael fel arfer!

Roedd fy nhad yn mynd i'r banc y diwrnod cynt i gael ceiniogau newydd sbon i'w rhoi i'r plant oedd yn galw gyda ni.

Dyma ein rhigwm ni :

"Rhowch galennig yn galonnog

I blant bach sydd heb un geiniog."

Wrth gwrs, roedd rhaid i ni orffen cyn deuddeg o'r gloch oherwydd roedd hi'n lwc wael i hela calennig ar ôl hanner dydd. Ces i dipyn o siom pan symudais i ardal Abertawe ar ôl priodi, a darganfod nad oedd plant yr ardal yna yn hela calennig fel yng Ngheredigion.

gyda diolch i www.amgueddfa.cymru am y darn

Y Dasg Bortffolio …

Mai 7fed 2020

Task 1: Choose a suitable theme to be presented to a group of children creating two differentiated activities to introduce them. The rationale for choosing the theme and the main aims attached to the activities should be noted. The proposed audience should be noted, and the type of language teaching opportunities that the activities would offer when teaching Welsh as a second language in the English medium sector. (up to 400 words)

Task 2: Introduce a thematic session and two differentiated activities for a group of children during your PAP period. You will need to film the session and the activities to be analyzed by you and to present it as part of the module's assessment. (up to 8 minutes)

Task 3: A written reflection on Task 2. (up to 1600 words)

You may record your lesson in any format in order to upload to YouTube. You should include a link to your clip within the document that you upload to Turnitin.

It is YOUR RESPONSIBILITY to ensure that the clip works and can be viewed by the marker.

Wythnos Nesaf: Hydref 31ain

- Does dim darlith, ond rhaid i chi …
  - Adolygu'r Gorchmynion, Berfau a'r Ymadroddion Defnyddiol yn y Dosbarth
  - Cwblhau'r Quizziz **erbyn Hydref 29**
  - Paratoi Tasg 1 y Portffolio – drafft i drafod yn y ddarlith nesaf

